

Gwybodaeth
i weithwyr
ieuenctid a
chefnogi



Comisiynydd
Plant
Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Llysgenhadon Cymunedol

Mae Tasg Arbennig y tymor yma'n ymwneud â llesiant eich pobl ifanc ar ôl y 18 mis diwethaf, sydd wedi bod mor annisgwyl. Rydyn ni'n gwybod y bydd llawer ohonoch chi'n dechrau dychwelyd at ffordd fwy cyfarwydd o weithio, ac yn cwrdd â'r bobl ifanc wyneb yn wyneb. Rydyn ni'n gobeithio bydd y dasg hon yn eich cefnogi i werthuso eu llesiant a'u cynnwys wrth feddwl am fynd ati'n barhaus i greu grŵp hapus, iach, a chymuned sy'n cefnogi anghenion pob unigolyn.

Chi sy'n gwybod sut byddai'r dasg yn gweithio orau yn eich lleoliad, a gallai'r holl aelodau gwblhau'r cwestiynau cefnogi yn annibynnol, neu gallech chi gynnal trafodaeth agored yn ystod cyfarfod. Mae croeso i chi addasu'r cwestiynau i gyd-fynd ag amgylchedd ac anghenion eich grŵp. Serch hynny, bydden ni'n croesawu petaech chi'n trefnu cyfarfod rhwng eich llysgenhadon a chi eich hunan a gweithwyr cefnogi eraill, fel rhan o'r dasg, i drafod y pwnc. Yn ystod y cyfarfod yma gallech chi a'ch Llysgenhadon ystyried sut mae eich grŵp a'u cymuned yn cefnogi eu llesiant, ac a oes unrhyw newidiadau allai gael eu gwneud i'w wella ymhellach. Gallech chi gytuno ar rai blaenoriaethau wrth symud ymlaen, a chreu cynllun ynghylch sut mae gwneud gwahaniaeth.

Gallech chi ystyried defnyddio adnodd CPC [Gwneud Gwahaniaeth – Canllaw person ifanc i weithredu i](#) ysbrydoli a chefnogi'r bobl ifanc i greu newid yn eu cymuned. Peidiwch ag anghofio bod y dasg hon ar waith gennym ni mewn ysgolion uwchradd hefyd; os hoffen nhw annog eu hysgol i gwblhau'r dasg, gweler [yma](#).



Comisiynydd
Plant
Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cynghorion ar gyfer y dasg

- Gallai llysgenhadon gyflawni'r dasg ar eu pennau eu hunain neu weithio gydag aelodau eraill o'r grŵp i'w chyflawni.

Gweithgareddau Estynedig

- Allech chi gynnwys teuluoedd a'r gymuned ehangach yn eich cynlluniau?
- Allech chi ddarganfod pa weithgareddau sy'n digwydd yn fuan yn eich cymuned i gefnogi llesiant Plant a Phobl Ifanc, y gallech chi helpu i'w hyrwyddo?
- Allech chi gysylltu â'ch cynghorydd lleol neu eich AS i drafod llesiant PPhI yn y gymuned?
- Oes yna unrhyw beth yn eich cymuned allai gael ei wella?
- Ymhen blwyddyn, allech chi asesu oes yna unrhyw newid wedi digwydd?
- Allwch chi feddwl am ffyrdd o sicrhau bod sgysiau am lesiant yn parhau?